# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr D R Hughes a J A Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd isod :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Awst, 2015;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Awst, 2015.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 DILEU SWYDD ODDI AR Y SEFYDLIAD A'R EFFEITHIAU CYSYLLTIEDIG**

Rhoes y Prif Weithredwr adroddiad llafar mewn perthynas â dileu swydd oddi ar y sefydliad a'r effeithiau cysylltiedig.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Rhoi'r awdurdod i'r Prif Weithredwr, Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol a Chadeirydd y Pwyllgor Penodiadau sefydlu a oes gan y Penaethiaid Gwasanaeth presennol unrhyw ddiddordeb mewn cymryd drosodd rôl y swydd fel y caiff ei hamlinellu yn yr adroddiad.**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Penodiadau ei ystyried yn dilyn trafodaeth fel y nodir uchod.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**